HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# HOCI CYMRU
# ADRODDIAD BLYNYDDOL
2021–2022

# CYNNWYS


CYFLWYNIAD __ 4

NEGES GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR __ 5

YMGYSYLLTU __ 6

CYFLAWNI POTENSIAL __ 12

AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS __ 22

CYFRANOGIAD __ 27

PARTNERIAETHAU __ 32

MANYLION ARIANNOL __ 35



# CYFLWYNIAD

Eleni, mae Hoci Cymru yn falch iawn o rannu straeon a newyddion am weithgarwch hoci ar y cae – rhywbeth nad ydym wedi gallu ei wneud ers peth amser! Wrth i ni barhau i ddychwelyd i normalrwydd, rydym yn atgoffa ein hunain o'n pwrpas a sut rydym wedi gweithio'n llwyddiannus tuag at gyflawni ein bwriad strategol yn ystod cyfnod cymhleth. Mae'r tîm yn Hoci Cymru nid yn unig wedi goroesi'r pandemig byd-eang ond wedi ffynnu ac wedi parhau i ganolbwyntio ar greu amgylcheddau ffyniannus; helpu pobl i gyflawni eu potensial; creu cyfleoedd; ymgysylltu â'n haelodaeth; a datblygu partneriaethau.

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein huchelgais i ddod yn llai dibynnol ar arian cyhoeddus, gyda meddylfryd mwy masnachol, a sefydliad carbon niwtral cynaliadwy. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda sefydliadau o'r un anian wrth i ni ymdrechu i gynnwys hoci yn rhan o gartref pawb, perfformio'n barhaus ar lwyfan y byd, a ffynnu mewn ysgolion a chymunedau.

# NEGES GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR

**Mae'n bleser mawr cael agor adroddiad blynyddol eleni sy'n dangos blwyddyn lawn o weithgarwch hoci. Mae wedi bod yn hyfryd rhannu profiadau a gweld wynebau hapus yn mwynhau'r gamp rydym ni mor hoff ohoni. Mae'r pandemig wedi ein dysgu ni i fod yn garedig gyda'n gilydd ac i werthfawrogi pa mor lwcus ydym, ac wrth i ni ddychwelyd at hoci, fe hoffwn i ni barhau â hyn yn ein meddyliau. Mae ein gwirfoddolwyr, y teulu hoci a'n staff yn parhau i weithio'n galed iawn i sicrhau bod ein camp yn ffynnu ar draws cymunedau ac rwy'n hynod ddiolchgar i bawb sy'n gwneud i hoci ddigwydd.**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfle i rannu ein cyflawniadau gwych fel Teulu Hoci: 100oedd o blant mewn ysgolion cynradd yn cymryd rhan yn ein rhaglen Hooked on Hoci; 200+ o lysgenhadon ifanc eithriadol yn arwain y ffordd; ein trydydd tîm eithriadol sy'n dyfarnu ac yn gweinyddu ein gemau; ein rhaglen Meistri anhygoel sy'n parhau i dyfu mewn niferoedd ac oedran gyda'n chwaraewyr hynaf dros 80 oed; ein Clybiau sy'n ysbrydoli eu cymunedau; a'n perfformiad eithriadol ar lwyfan y byd, yn arbennig ein dynion hŷn yn cymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd am y tro cyntaf mewn hanes. Ond rhaid i ni beidio ag anghofio am y pethau llai amlwg. Yr oriau o waith, rheoli risg, cymorth busnes a llywodraethu da sy'n galluogi i'n gêm wych ddigwydd.

Wrth i ni edrych ymlaen at ddyfodol mwy cyson a disgleiriach lle nad oes tarfu ar hoci gan y pandemig byd-eang, rwy'n gyffrous am ein dyfodol. Dyfodol lle mae hoci yng nghartref pawb, lle rydym yn parhau i berfformio ar lwyfan y byd, a lle mae hoci yn ffynnu yn ein cymunedau a'n hysgolion. Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau ein hadroddiad blynyddol ac yn rhoi amser i adlewyrchu ar y siwrnai rydym wedi bod arni gyda'n gilydd – siwrnai sy'n dangos ein bod yn Well Gyda'n Gilydd.



Conrad Funnell
Chair



Ria Burrage-Male
Chief Executive Officer

# YMGYSYLLTU



# DADANSODDIAD CLYBIAU

## AELODAETH YN AMRYWIO O 4 I 82 OED

## % YR AELODAETH YNG NGHYMRU

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

| CYFANSWM AELODAETH (5 UCHAF) | DYNION HŶN (5 UCHAF) | MERCHED HŶN (5 UCHAF) | BECHGYN IAU (5 UCHAF) | MERCHED IAU (5 UCHAF) |
|---|---|---|---|---|
| Swansea HC | Cardiff & Met | Cardiff University | Whitchurch | Teigrod Tywi HC |
| Whitchurch | Swansea HC | Swansea HC | Cowbridge Juniors | Penarth Ladies |
| Gwent | Cardiff University | Cardiff & Met Ladies | Gwent | Merched Pwllheli HC |
| Cardiff University | Whitchurch | Whitchurch Saints | Eirias HC | Whitchurch |
| Cardiff & Met | Bridgend | Gwent | Swansea HC | Gwent |


*Sylwer: Mae'r 5 Uchaf yn cyfeirio at y nifer mwyaf o aelodau*

## CLYBIAU'N DARPARU AR GYFER DOSBARTHIADAU AELODAETH

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU


| | NIFER y CLYBIAU | % y CLYBIAU |
|---|---|---|
| DYNION HŶN | 24 | 36 |
| MERCHED HŶN | 50 | 75 |
| BECHGYN IAU | 37 | 55 |
| MERCHED IAU | 52 | 78 |
| POB DOSBARTH | 14 | 21 |

## CYFANSYMIAU AELODAETH




- Clybiau wedi cynyddu
- Clybiau wedi lleihau
- Clybiau dim newid


## GRADDFA'R NEWID
(CYNNYDD MEWN AELODAETH)




- 1 i 10
- 11 i 30
- 31 i 35
- 51 i 70
- 71 i 90
- 91+

*Sylwer: Cyfran y clybiau sydd wedi cynyddu mewn aelodaeth ac o faint. E.e. os yw clwb wedi cynyddu 1 i 10 aelod ac ati.*

## GRADDFA'R NEWID
(GOSTYNGIAD MEWN AELODAETH)





- 1 i 10
- 11 i 30
- 31 i 35
- 51 i 70
- 71 i 90
- 91+

*Sylwer: Nifer y clybiau sydd wedi gostwng mewn aelodaeth ac o faint.*


# DADANSODDIAD YSGOLION

## *AELODAETH YN AMRYWIO O 4 I 17 OED*


### % AELODAETH YSGOL





### AELODAU OEDRAN YSGOL




### % AELODAU OEDRAN YSGOL (HUNANIAETH RHYWEDD)




### AELODAU OEDRAN YSGOL (HUNANIAETH RHYWEDD)






**Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, gwelsom ddatblygiad Canolfan Hoci Cerdded yn y Ganolfan Hoci Genedlaethol, Caerdydd. Ar ôl derbyn cefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol a phartneriaeth gyda Chwaraeon Caerdydd, aethom ati i ddechrau cynnal sesiynau ar gyfer pobl 65+ oed.**

Y nod oedd gwella cynhwysiant cymdeithasol a gweithgarwch ar ôl Covid drwy gael sesiwn hwyliog, hamddenol o hoci cerdded, gyda chacen a diod boeth i ddilyn, gan roi cyfle gwych i bobl gysylltu a meithrin cyfeillgarwch.

Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, rydym eisiau parhau i gefnogi a hwyluso clybiau gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu hoci cerdded o fewn eu clybiau i ymgysylltu ag aelodau presennol a darpar aelodau yn y ffordd hynod gymdeithasol hon.





> "Y nod oedd gwella cynhwysiant cymdeithasol a gweithgarwch ar ôl Covid drwy gael sesiwn hwyliog, hamddenol o hoci cerdded"




**Bydd gweithlu o tua 200+ o lysgenhadon hoci ifanc ledled Cymru sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yn cael eu hyfforddi i'n helpu i hwyluso gwyliau i ysgolion yn y 22 o awdurdodau lleol a chefnogi darpariaeth (cyn, yn ystod ac ar ôl y gwyliau) yn eu lleoliadau eu hunain.**

Bydd y Rhaglen Llysgenhadon Hoci Ifanc yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed eleni. Dechreuodd y rhaglen yn 2012 fel rhan o Waddol Olympaidd Hoci Cymru i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf. Yn ystod y 10 mlynedd, mae'r rhaglen wedi cefnogi mwy na 500 o bobl ifanc ar draws ysgolion a chlybiau i helpu i ddatblygu ein gêm, yn ogystal â darparu llais i bobl ifanc. Mae'r rhaglen wedi helpu i ddatblygu unigolion drwy bŵer hoci ac wedi darparu llu o gyfleoedd ledled Ewrop.

Mae Hoci Cymru yn gyffrous am fod yn rhan o 'Darpar Arweinwyr Ifanc Ysbrydoledig' ynghyd â nifer o Sefydliadau Arweinyddiaeth Ewropeaidd, Cymdeithasau Cenedlaethol Ewropeaidd eraill, a'r EHF i ddatblygu Rhaglen Ewropeaidd i gefnogi pobl ifanc ymhellach a datblygu ein cenhedlaeth nesaf o arweinwyr.



# HOOKED ON HOCI

Ers ail-lansio'r rhaglen ym mis Tachwedd 2022, mae gennym ni bellach 27 o ysgolion wedi cofrestru (18 cynradd a 9 uwchradd) ar draws 14 awdurdod lleol. Drwy'r pecynnau amrywiol sydd ar gael (efydd i blatinwm), gall ysgolion gael mynediad i adnoddau addysgu, hyfforddiant, mentora, offer, a hyfforddiant i gefnogi cyflwyno hoci mewn AG neu glybiau allgyrsiol.

O ganlyniad i'r rhaglen hon a thrwy gyllid uniongyrchol gan Ffrindiau Hoci, rydym hefyd wedi gallu cefnogi clybiau hoci Abertawe, y Rhyl a Chastellnewydd Emlyn i gyflwyno prosiectau Hooked on Hoci pwrpasol yn eu hysgolion dalgylch lleol.

Drwy'r ymyriadau hyn wedi'u targedu, bydd clybiau'n cyflwyno sesiynau Hooked on Hoci i gefnogi ysgolion i'w paratoi ar gyfer mynychu eu gwyliau hoci sirol. Bydd hefyd yn eu galluogi i ddatblygu cysylltiadau cadarnach rhwng ysgolion a chlybiau, hyfforddi cynulleidfa barod a hyrwyddo a marchnata eu cynigion aelodaeth, a fydd, gobeithio, yn arwain at bontio llwyddiannus.

# CYFLAWNI POTENSIAL





# CYFLAWNI UCHAFBWYNTIAU POTENSIAL

**Does dim byd byth yn sicr mewn chwaraeon rhyngwladol, er gwaethaf yr ymdrechion i gynllunio, rhagweld, strategaethu a pharatoi ar gyfer llwyddiant yn y ffordd orau bosibl. Mae hyn yn fwy gwir fyth am chwaraeon tîm, o ystyried y newidynnau niferus sydd ar waith. Wrth edrych yn ôl ar y gweithgarwch Perfformiad a Llwybr yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yr hyn y gallwn fod yn sicr ohono yw y bydd gan ein holl chwaraewyr a staff sy'n gwasanaethu'r rhaglenni hyn un peth yn gyffredin: ceisio gwneud y presennol a'r dyfodol yn well na'r gorffennol. Yn syml, dyma sy'n sbarduno ein diwylliant perfformiad uchel fel cenedl hoci.**

Mae'r agwedd hon wedi dod i'r amlwg dro ar ôl tro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi rhoi mwy o gred i'n timau yn eu gallu i gystadlu ar eu lefelau priodol. Mae llawer o gerrig milltir personol wedi'u cyrraedd, boed hynny'n ddynion a merched hŷn yn cael eu cap 1af neu eu 100fed cap, a rhagorwyd ar recordiau'r gorffennol, fel Lewis Prosser yn 2021 yn dod y chwaraewr gwrywaidd â'r nifer mwyaf o gapiau erioed, gan ymuno â Leah Wilkinson sy'n dal y record merched a phob camp. Mae cynrychiolaeth Cymru ar raglen Prydain Fawr wedi bod yn fwy nag erioed. Pob un o'n 4 cynrychiolydd yn 2021 yn gwireddu eu breuddwydion a phob un yn cael eu dewis ar gyfer Gemau Olympaidd Tokyo, gyda 2 fedal efydd yn dychwelyd diolch i Sarah Jones a Leah Wilkinson. Cymhwysodd ein dynion hŷn ar gyfer Cwpan y Byd am y tro cyntaf yn eu hanes mewn cyfres epig o gemau yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2021. Roedd y merched yn boenus o agos at ymuno â hwy ac fe wnaethant orffen gydag uchafbwynt yn yr ail safle yn eu gêm gymhwyso eu hunain.

Roedd cyfnod COVID yn cynnig cyfle i dimau dan 19 ein NAG herio'r gwledydd cartref eraill, a gwelwyd hwy'n dangos eu twf eu hunain a chyflawniad llawn dyhead, gyda thimau'r bechgyn a'r merched yn sicrhau buddugoliaethau yn erbyn Lloegr. Ochr yn ochr â hyn, enillwyd medalau arian a chreu hanes unwaith eto i'r merched D18 yn nhwrnamaint diwethaf Cwpan y Dyfodol a medal arian arall, i'r merched D17 y tro hwn, wrth i ni gystadlu eto yng Ngemau Ysgolion y DU.

Mae ennill a sefyll ar y podiwm i dimau Hoci Cymru, a phontio i raglenni Prydain Fawr, bellach nid yn unig yn freuddwyd ond yn ddyhead realistig i weithio'n galed tuag ato. Mae lefelau'r ddarpariaeth hyfforddi, y ddarpariaeth datblygu hyfforddwyr a'r gefnogaeth perfformiad i gynorthwyo gyda datblygiad a chynnydd ar lefel uwch bellach nag yr ydym wedi gallu ei gynnig yn flaenorol. Mae gan y Llwybr bellach lefelau newydd o ymgysylltu cyfannol, iechyd meddwl a llesiant, ac mae cefnogaeth seicoleg a maeth wedi dod ar gael i'n timau hŷn yn rheolaidd drwy weithio gyda'n sefydliadau partner a Chwaraeon Cymru. Mae Llwybr newydd wedi mynd drwy gylch llawn cyntaf a gyda nifer y chwaraewyr yn ein sgwadiau D23 / D21 yn edrych yn galonogol iawn, mae'n amlwg bod ein rhaglenni pontio yn cryfhau drwy'r amser.

Gyda'r dynion a'r merched hŷn bellach yn eu safleoedd uchaf ers blynyddoedd lawer, maent yn edrych ymlaen yn awr at geisio creu mwy o hanes yn 2022 a 2023: gan dargedu'r safle gorffen gorau erioed yng Ngemau'r Gymanwlad sydd i ddod; ceisio sicrhau safleoedd adran A yn y gemau cymhwyso Ewropeaidd; ac wedyn mater bach o Gwpan y Byd y dynion i edrych ymlaen ato!

Diolch i bawb sy'n cyfrannu at ein rhaglenni, waeth pa mor fawr neu fach, gan fod y cyfan yn cael ei werthfawrogi. Diolch i'n holl ffrindiau, teulu, a'r teulu hoci am eich cefnogaeth barhaus. Mwynhewch ein timau Perfformiad a Llwybr yn 2022 wrth iddynt gamu i'r llwyfan unwaith eto!




# HOCI PRYDAIN FAWR

**Yr uchafbwynt yn 2021 heb os oedd Gemau Olympaidd Tokyo. Cyflawniad gwych i Hoci Cymru gael ei gynrychioli'n gyfartal gyda dau chwaraewr yr un yn sgwadiau'r dynion a'r merched.**

Ar ochr y dynion, ar ôl rhai perfformiadau addawol yn y gemau grŵp, roedd Prydain Fawr yn anlwcus i golli yn rownd yr wyth olaf yn erbyn tîm cryf o India, ond roedd yn wych gweld Jacob Draper a Rupert Shipperley yn rhoi perfformiadau cyson drwyddi draw ac yn edrych yn gyfforddus iawn ar y llwyfan mwyaf yn y byd hoci.

Gorffennodd y merched yn gadarn ar ôl dod drwy'r grŵp yn dda ond heb lwyddo yn y gêm gynderfynol yn erbyn yr Iseldiroedd. Cafwyd gêm yn erbyn India i hawlio'r fedal efydd, gêm gyffrous ac agos, ond sicrhaodd Prydain Fawr y 3ydd safle a medalau haeddiannol i Sarah Jones a Leah Wilkinson, a roddodd berfformiadau unigol cofiadwy drwy gydol y Gemau Olympaidd a chwarae rhan lawn yn llwyddiant y tîm.

Wrth i'r haf droi'n hydref cymerodd sawl un o'n chwaraewyr ran yn y cylch nesaf o gadarnhau talent Prydain Fawr. Yn sgil hyn ychwanegwyd Toby Reynolds-Cotterill at raglen dynion hŷn Prydain Fawr i barhau â'n pontio cadarnhaol diweddar ar chwaraewyr hŷn i amgylchedd Prydain Fawr, gan dynnu sylw ymhellach at y cynnydd rydym yn ei wneud ar lefel ryngwladol hŷn gyda'n dynion a'n merched.

Yn ystod 2021 a dechrau 2022 rydym hefyd wedi gweld y chwaraewyr canlynol yn cymryd rhan yng ngweithgarwch Rhaglen Datblygu Elitaidd Prydain Fawr. Llongyfarchiadau iddynt i gyd...

Rhys Bradshaw

Rhys Payne

Fred Newbold

Izzie Howell

Millie Holme

Livvy Hoskins



# DYNION A MERCHED HŶN

**Gellir crynhoi llawer o brofiad twrnamaint 2021 ar gyfer ein timau dynion a merched hŷn gyda'r geiriau 'swigen COVID'! Mae'n anodd dweud a wnaeth hyn helpu neu lesteirio neu'r ddau yn gyfartal, ond mae bob amser yn gryfder yn ein timau hŷn i allu addasu i amgylchiadau dyrys ac annisgwyl, gan lywio o amgylch yr hyn y mae Mark Mullineaux, ein Pennaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon, yn ei ddisgrifio fel 'baeddod gwyllt'. Rydym yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwn o gystadlu fel un arall o gynnydd a thwf, gyda hanes yn cael ei greu ar hyd y daith.**

Wynebodd y dynion a'r merched heriau enfawr yn eu rhanbarthau Ewropeaidd perthnasol. Cynhaliwyd cystadleuaeth y dynion ym mis Mehefin gyda fawr ddim amser paratoi ar gyfer y gemau ar gael i'r gwledydd rhan amser a'r rhai heb gynghreiriau Proffesiynol. Heb ystyried y gemau anodd yn erbyn yr Almaen, yr Iseldiroedd a Sbaen, sicrhaodd y fuddugoliaeth lawn tensiwn yn erbyn Ffrainc a gêm gyfartal fywiog 3-3 yn erbyn Rwsia bod y tîm wedi gorffen yn y 7fed safle a safle detholyn ffafriol ar gyfer gemau cymhwyso Cwpan y Byd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Bu'n rhaid i'r merched fynd i'r Ewros ym Mhrâg heb Sarah Jones a Leah Wilkinson oherwydd agosrwydd Gemau Olympaidd Tokyo. Roedd yn golled enfawr mynd heb eu profiad, ond llwyddwyd i gael canlyniadau positif yn erbyn Rwsia a Lithwania i orffen yn 2il yn y grŵp, sicrhau lle yn y rownd gynderfynol yn ogystal ag yng ngemau cymhwyso Cwpan y Byd ym mis Hydref. Yn anffodus, mewn gêm a allai fod wedi mynd y naill ffordd neu'r llall, gwnaed colli o drwch y blewyn yn y rownd gynderfynol yn erbyn Ffrainc (1-2) yn waeth gan golled arall yn y gêm am fedal efydd yn erbyn Gwlad Pwyl a gorffen yn y 4ydd safle.

Gyda chyfnod hirach o baratoi ar gael i'r ddau dîm, roedd edrych ymlaen at herio gwledydd eraill yng Ngemau cymhwyso Cwpan y Byd, gyda'r bonws ar ochr y dynion o fod yn cynnal y gemau, gyda chefnogaeth gartref Caerdydd y tu cefn iddynt. Oherwydd y gwledydd sy'n cynnal cwpan y byd, roedd dau le i gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd ar gael yn nigwyddiad y dynion ond dim ond un ar gyfer y merched, a oedd yn cael ei gynnal yn Pisa, yr Eidal. Trawsnewidiwyd Caerdydd yn grochan drwy gydol y twrnamaint ac roedd fel pe bai'n ennyn y gorau o dîm y dynion. Hwyliodd y tîm heibio'r Eidal yn y gêm agoriadol ac ymlaen i rownd gynderfynol gyda'r enillydd yn hawlio'r cyfan yn erbyn Iwerddon. Mae'r gweddill yn hanes wrth i'r tîm drechu mewn gornest saethu a chymhwyso am y tro cyntaf ar gyfer Cwpan Byd y dynion, ym



mis Ionawr 2023. Aeth y clipiau fideo o'r dathliadau ar ôl yr ornest saethu yn feirol am gyfnod a byddant yn cael eu mwynhau am flynyddoedd i ddod rwy'n siŵr!

Roedd cystadleuaeth y merched yn llawn tyndra hefyd wrth i'n merched ni anfon y wlad gynnal, yr Eidal, allan o'u twrnamaint eu hunain am y tro cyntaf gyda buddugoliaeth o 1-0 yn rownd yr wyth olaf a gwasgu heibio'r Alban mewn gornest saethu eu hunain yn y rownd gynderfynol. Roedd eu gêm derfynol yn erbyn tîm Olympaidd diweddar a ddaeth yn ail yn y Cwpan Byd diwethaf, Iwerddon, am le yn gêm derfynol 2022. Wedi tri chwarter roedd y ddau dîm yn gyfartal 1-1, ond yn anffodus gôl 11 munud o'r diwedd sicrhaodd y fuddugoliaeth i Iwerddon a lle yng Nghwpan y Byd. Serch hynny, dangosodd y perfformiadau yn Pisa gynnydd aruthrol yn y grŵp, a hyder a chred o'r newydd i symud ymlaen. Er na chafwyd cyfle i fwynhau'r wobr eithaf, gall y grŵp fod yn fodlon iawn eu bod wedi gorffen yn 2il ar ôl dod yn 7fed allan o 8 tîm ar y dechrau.

Mae'r llwyddiannau drwy gydol 2021 wedi gweld y dynion yn codi o'r 18fed i'r 15fed safle yn safleoedd y byd a'r merched yn codi o 26ain i 23ain. Llongyfarchiadau a diolch yn fawr iawn i'r holl chwaraewyr, rheolwyr y timau, yr hyfforddwyr, a'r staff cefnogi perfformiad am eich holl gyfraniadau ac am gythraul o siwrnai unwaith eto! Rydym ni i gyd yn gobeithio am fwy o lwyddiant yn ystod 2022 a dechrau 2023!

# CERRIG MILLTIR

Cyflawnodd y chwaraewyr canlynol gerrig milltir personol arwyddocaol yn ystod y cyfnod adrodd, felly hoffwn longyfarch y rhain...

## DYNION

### 1AF CAPIAU

Toby Reynolds-Cotterill
Fred Newbold
Rhys Payne
Jack Pritchard

### 50 CAP I

Jacob Draper

### 100 CAP I

Dan Kyriakides
*(100 combined across Wales and GB)*
Joe Naughalty
Luke Hawker

### 159 CAPIAU

**Y CHWARAEWR GWRYWAIDD I ENNILL Y NIFER MWYAF O GAPIAU ERIOED...**
Lewis Prosser *(fe wnaeth ei 159fed yn 2021 dorri record flaenorol Paul Edwards)*

## MERCHED

### 1AF CAPIAU

Millie Holme
Livvy Hoskins
Emily Drysdale

### 100 CAP I

Xenna Hughes




# DYNION A MERCHED D23

**Roedd wedi cymryd cryn amser i ailddechrau gweithgarwch ystyrlon ar gyfer y grwpiau hyn ar ôl codi cyfyngiadau COVID, ond yr hyn sydd i'w nodi yw dyfnder y niferoedd sydd bellach yn dod allan o'n rhaglenni NAG i'r grŵp D23, a fydd, yn ei dro, yn golygu trosglwyddo cyson ar chwaraewyr i'r sgwadiau hŷn.**

Mae'r grwpiau hyn bellach yn cael eu harwain gyda gofal a sylw i fanylder gan Martin Schouten (Dynion) a Walid Abdo (Merched).

Uchafbwyntiau eu rhaglen fer yn 2021 oedd gemau yn Iwerddon ar ochr y merched a brwydrau gwych ar ochr y dynion, yn gyntaf yn Wrecsam yn Haf 2021 ar draws 3 gêm yn erbyn yr Alban ac wedyn perfformiad calonogol iawn yn yr Hydref yn erbyn sgwad Datblygu teithiol Malaysia.

Wrth i ni gyrraedd 2022, mae'r paratoadau'n edrych ymlaen at gystadlaethau Ewropeaidd D21 ym mis Gorffennaf ar gyfer y ddau ryw, gyda'r merched yn cael y bonws o gael eu gwahodd i Gwpan y Byd y Merched Iau yn Potchefstroom, De Affrica ym mis Ebrill, a fydd yn caniatáu iddynt ddefnyddio hyn fel paratoad ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Roedd y dynion i fod i orffen 2021 gyda chystadleuaeth D21 Dan Do Ewropeaidd ym Mhortiwgal ond oherwydd problemau cysylltiedig â COVID yn ymwneud â theithio a chwarantîn posibl, ni ddigwyddodd hyn.





# LLWYBR

**Mae tymor 2021/22 wedi gweld darpariaeth unigryw o'n Llwybr drwy gynnal un cylch a hanner. Ar ôl dychwelyd wedi COVID, roedd yn amlwg bod ein chwaraewyr Llwybr yn awyddus i ailgysylltu cyn gynted â phosibl. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, cynhaliwyd bloc o sesiynau 12 wythnos gennym o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2021, gan ymgysylltu â mwy na 100 o chwaraewyr ledled Cymru yn ogystal â gweld ein gweithlu hyfforddi yn dychwelyd, a wnaeth y sesiynau'n bosibl.**

Rhagflaenodd y cylch hwn gylch prysur newydd o weithgarwch a ddechreuodd ym mis Medi 2021. Mae'r Llwybr wedi cael ei ailfrandio eleni, gan drosglwyddo o Ganolfannau Hoci 360 a 360 Aspire i Ganolfannau Iau y Ddraig, Canolfannau Datblygu'r Ddraig a Chanolfannau Perfformiad Rhanbarthol. Yn ogystal ag ailfrandio'r canolfannau, gwnaethom newidiadau i swyddogaethau hyfforddwyr y Llwybr, gan wneud yn siŵr ein bod yn ymgysylltu â hyfforddwyr NAG yn y Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol i sicrhau lefel o gysondeb ac amlygrwydd er budd yr hyfforddwyr yn ogystal â'r chwaraewyr.

Rydym wedi ymgysylltu â chyfanswm o 156 o chwaraewyr yng Nghanolfannau Iau y Ddraig ar draws 7 safle yng Nghymru, 158 o chwaraewyr mewn Canolfannau Datblygu'r Ddraig yn weithredol ar draws 7 safle yng Nghymru a 189 o chwaraewyr yn y Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol a ddarperir yng Nghaerdydd, Abertawe a Pharc Eirias.

Mae wedi bod yn braf ymgysylltu â 23% o aelodau cymwys Hoci Cymru yn ein Llwybr, gan gynnwys 62% o fenywod a 38% o wrywod.





# GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL

**Fel ein Llwybr, cafodd y sgwadiau Grŵp Oedran Cenedlaethol (NAG) eu trochi'n syth mewn gweithgarwch hoci yn dilyn bywyd o gyfyngiadau. Llwyddwyd i agor yr haf o hoci gyda Gwersyll Pasg yn Abertawe, gan gael y chwaraewyr a'r hyfforddwyr yn ôl i'r lle maen nhw'n ei adnabod orau, sef y cae hoci.**

O ganlyniad i'r tîm D18 yn methu cyrraedd y Gemau Ewropeaidd yn 2020, cafodd cystadleuaeth y Gwledydd Cartref ei chydlynu rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, a alluogodd y grŵp i gystadlu fel carfan D19. Dechreuodd cyfres y Gwledydd Cartref yn Wrecsam, gan groesawu'r Alban a chwarae mewn dwy gêm i bob sgwad dros y penwythnos. Roedd hwn yn ddychweliad ac yn gyfle gwych i'n chwaraewyr ni, a hefyd hwn oedd y digwyddiad gwylio cyntaf i ni ei gynnal ers y pandemig, gan roi cyfle i ffrindiau a theulu gefnogi eu chwaraewyr wrth chwarae dros y ddraig.

Wrth i'r haf o hoci barhau, gwelsom ein tîm D16 a D18 yn mynd i St Albans ar gyfer Cwpan y Dyfodol, gan gystadlu yn erbyn sgwadiau o bob rhan o Ganolfannau Perfformio Lloegr, a chystadlu ar y cyd fel y Jaguars Celtaidd. Mae bob amser yn brofiad gwerthfawr i'n sgwadiau ac mae'r cynnydd yn y gêm wedi bod yn amlwg bob blwyddyn maent wedi mynychu. Yn wobr haeddiannol iawn am eu perfformiadau rhagorol eleni, enillodd ein tîm D18 fedal arian.

Gyda chystadleuaeth arall ar gael yn gyflym iawn, i gloi haf o hoci rhyngwladol, paratodd ein dreigiau iau i ailgydio yn y cystadlu yng Ngemau Ysgolion y DU. Cynhaliwyd Gemau 2021 ym Mhrifysgol Loughborough rhwng 2il a 5ed Medi ac anfonodd Cymru dîm bechgyn a merched i gystadlu yn erbyn yr Alban, Ulster a thri thîm o Loegr. Mae bob amser yn bwysig i'n chwaraewyr gael profiad o dwrnamaint, ac roedd natur unigryw y ffaith bod y Gemau Ysgolion yn ddigwyddiad aml-chwaraeon yn creu naws gyffrous a gwahanol. Ar ôl haf addawol o ddatblygiad i'n chwaraewyr rhyngwladol ifanc, roedd yn braf i'n teulu Hoci gael dilyn eu campau unwaith eto.

Yn fuan iawn, ar ôl tymor haf prysur o hoci, aeth ein chwaraewyr NAG i mewn i'r flwyddyn nesaf o asesiadau ar gyfer y cyfnod 22/23 i ddod, a gyda'r calendrau hoci eisoes yn hynod brysur, roeddem yn hapus i groesawu'r sgwadiau yn ôl i'r gwersyll ym mis Hydref 2021, yn ogystal â misoedd Ionawr a Chwefror 2022. Mae'r gwersylloedd diweddaraf wedi chwarae rhan allweddol yn lansiad y rhaglen gyfannol sydd â swyddogaethau o ddarparu cefnogaeth o safon oddi ar y cae ac addysg i'r chwaraewyr er mwyn sicrhau amgylchedd diogel a ffyniannus yn gyffredinol.

Yng ngwersyll hanner tymor mis Chwefror, cyflwynwyd rhaglen Gwytnwch Pobl Ifanc a fydd yn darparu cefnogaeth bwysig i'r holl chwaraewyr NAG wrth roi sylw i iechyd a lles eu meddwl a sicrhau ein bod yn addysgu chwaraewyr, rhieni a staff cefnogi am y ffactorau allweddol i ddangos gwytnwch pan maent mewn amgylchedd prysur, gan gynnwys hoci, straen arholiadau, gweithgareddau cymdeithasol ac ati. Bydd y rhaglen hon yn parhau i gael ei hymgorffori yn y rhaglen gefnogi oddi ar y cae ar gyfer chwaraewyr fel rhan o'n hymrwymiad sefydliadol i flaenoriaethu iechyd a lles y meddwl.

# STAFF CEFNOGI PERFFORMIAD

**DYNION HŶN**

**Danny Newcombe**
*Prif Hyfforddwr y Dynion Hŷn*

**Will Packer**
*Rheolwr Rhaglen y Dynion Hŷn*

**Swydd Wag**
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Dynion Hŷn*

**Martin Schouten**
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Dynion Hŷn a Phrif Hyfforddwr y Rhaglen D23*

**Gwyn Williams**
*Hyfforddwr Cefnogi y Dynion Hŷn a D23*

**Sam Rowe**
*Hyfforddwr Cynorthwyol a Dadansoddydd y Dynion Hŷn / D23*

**Tom Jenkins**
*Ffisiotherapydd y Dynion Hŷn*

**Keir Starley**
*Hyfforddwr Gôl-geidwaid y Dynion Hŷn*

**Carmen Ansley**
*Ffisiotherapydd y Dynion D23*

**Mark Mullineaux**
*Pennaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon a Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru y Dynion Hŷn*

**MERCHED HŶN**

**Kevin Johnson**
*Prif Hyfforddwr y Merched Hŷn*

**Rebecca Daniels**
*Rheolwr Rhaglen y Merched Hŷn*

**Walid Abdo**
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Merched Hŷn a Phrif Hyfforddwr y Rhaglen D23*

**Swydd Wag**
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Merched Hŷn*

**Paul Edwards**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D23*

**Jonny Harper**
*Ffisiotherapydd Arweiniol Hoci Cymru a Ffisiotherapydd y Merched Hŷn*

**Theo Dowse**
*Hyfforddwr Cefnogi / Dadansoddydd y Merched Hŷn*

**Ross Hall**
*Cefnogaeth Seicolegol y Merched Hŷn*

**Liam Mickleburgh**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru y Merched Hŷn*

**Sam Milner**
*Ffisiotherapydd y Merched D23*

**Lyss Mildenstein**
*Ffisiotherapydd y Merched D23*

**GENETHOD Y GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHO**

**Sharon Smith**
*Rheolwr*

**Elliot Foweraker**
*Prif Hyfforddwr ac Arweinydd y Rhaglen D18*

**Lauren Burrell**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D18*

**Adam Broomfield**
*PDC D18*

**Mark Ramage**
*Prif Hyfforddwr D16*

**Rhys Gwilliam**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D16*

**Lianne Preston**
*PDC D16*

**Sam Watts / Mike Wood**
*Dadansoddydd*

**Kieran Tuck**
*Cryfder a Chyflyru*

**BECHGYN Y GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL**

**Shelley Robinson**
*Rheolwr*

**Mike Williamson**
*Prif Hyfforddwr ac Arweinydd y Rhaglen D18*

**Luke Stone**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D18*

**Brett Madden**
*PDC D18*

**Lee Marshall**
*Prif Hyfforddwr D16*

**Mo Samak**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D16*

**Jasminder Singh**
*PDC D16*

**Paul Dunleavy**
*Dadansoddydd*

**Connor Hetherton**
*S&C*

**Ella Jackson / Michelle Thomas**
*Cryfder a Chyflyru*

**Carmen Ansley, Cora Hogan, Emma Lewis, Deb Mason, a Chelsie -Jane Mason**
*Physios*

**HYFFORDDWYR CANOLFANNAU DATBLYGU'R DDRAIG**

**Nick Fackrell**
*Cwmbrân*

**Tom Wood a Beth Wood**
*Aberhonddu*

**Demi Hughes a Jasminder Singh**
*USW*

**Jack Rhodes, Will Raymond ac India Davies**
*Caerdydd*

**Callum Pink, Harry York a Tesni Galvin**
*Abertawe*

**Lianne Preston**
*Wrecsam*

**Brett Madden a Richard Hackett**
*Eirias*

**HYFFORDDWYR CANOLFANNAU IAU Y DDRAIG**

**Laurence Taylor**
*Bangor*

**Tom Williamson**
*Yr Wyddgrug*

**Beth Wood**
*Aberhonddu*


**Ceryn Harris a Lewis Davison**
*USW*

**Nick Fackrell a Lily Morgan**
*Cwmbrân*

**Lucy Keyworth a Jason Arnold**
*Pen-y-bont ar Ogwr*

**Alison Jones ac Yasmin Marshall**
*Tre-gwŷr*

# AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS





# DATBLYGU HYFFORDDWYR

**Yn ystod y 12 mis diwethaf mae 3 Datblygwr Hyfforddwyr rhan amser Hoci Cymru wedi bod yn gweithio ar sawl Prosiect a Menter Genedlaethol yn ogystal â chefnogi clybiau yn eu rhanbarthau perthnasol a darparu cefnogaeth barhaus i hyfforddwyr Llwybr Perfformiad.**

- Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar greu cwricwlwm datblygu Cymraeg ar gyfer hyfforddwyr. Mae'r rhaglen Tystysgrif Perfformiad Uchel gyntaf yn cael ei chynnal ac mae adnodd Cyflwyniad i Hyfforddi newydd wedi cael ei ddatblygu.
- Prosiect Hyfforddwyr Benywaidd – Mae Datblygwyr Hyfforddwyr Hoci Cymru yn cymryd rhan mewn prosiectau i gefnogi hyfforddwyr benywaidd a hefyd i ymchwilio i'r gwahaniaeth yn nifer yr hyfforddwyr benywaidd, y rhwystrau i ymgysylltu â hyfforddwyr benywaidd a sut gellir ymgysylltu â mwy o hyfforddwyr benywaidd.
- Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol – 60 o ymatebion o bob rhan o Gymru, yn tynnu sylw at yr angen am gynllun datblygu hyfforddwyr Clwb pwrpasol a oedd yn newyddion gwych gan fod hyn yn rhywbeth yr ydym ni fel grŵp o ddatblygwyr hyfforddwyr eisoes wedi'i sefydlu fel blaenoriaeth allweddol. Nododd yr arolwg hefyd yr angen am lwybr datblygu hyfforddwyr mwy dynodedig gyda gwahanol opsiynau ar gyfer cefnogaeth ar draws ein platfformau amrywiol ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r tîm yn gweithio arno ar hyn o bryd.
- Cynllun Peilot Datblygwyr Hyfforddwyr Clwb – mae hwn wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi cynnwys cynrychiolwyr wedi'u penodi o 16 o glybiau ledled Cymru yn ymgysylltu â Datblygwyr Hyfforddwyr Hoci Cymru i ddarparu cefnogaeth wedi'i nodi a'i thargedu i glybiau i helpu i recriwtio, cadw a datblygu hyfforddwyr newydd a phresennol. Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod sawl gwaith i rannu arferion, edrych ar sut gellir cynyddu cefnogaeth a helpu i lywio cyfeiriad y gefnogaeth Datblygu Hyfforddwyr wrth symud ymlaen. Mae rhywfaint o wybodaeth wych wedi dod drwy'r grŵp ac mae gwaith wedi'i wneud ar feysydd gweithredu a phrosiectau llwyddiannus yn cyflwyno ymgysylltu â gwirfoddolwyr newydd drwy sesiynau ar-lein ac ymarferol gyda chefnogaeth ddilynol ar eu cyfer a gweithredu cyrsiau Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hoci ychwanegol. Y nod wrth symud ymlaen yw gwneud y rôl hon yn un barhaus ac ehangu'r grŵp a chreu pwyntiau cyswllt Datblygu Hyfforddwyr mewn cymaint o glybiau â phosibl ledled y wlad. Bydd hyn yn caniatáu cyfleoedd i hyfforddwyr gymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu mwy ffurfiol ac anffurfiol gyda chlybiau yn cael mewnbwn i gyfeiriad y cyfleoedd hyn.
- Rhaglen Cefnogi Hyfforddwyr Llwybr Perfformiad – Mae ymgysylltiad rheolaidd â'r grŵp hwn wedi parhau ac mae pawb wedi cael y cyfle i fod yn rhan o'r rhaglen Tystysgrif Perfformiad Uchel gyntaf. Yn ogystal, mae'r hyfforddwyr hyn wedi cael eu cefnogi ar sail ranbarthol gydag arsylwi hyfforddi a chyfleoedd Mentora un i un.
- Mae Datblygwyr Hyfforddwyr Hoci Cymru wedi parhau i gysylltu â grŵp Datblygwyr Hyfforddwyr Prydain Fawr ac maent yn gweithio ar brosiect ar y cyd sy'n cyd-fynd â Fframwaith System Dalent Prydain Fawr, a chynhaliwyd sesiwn ar-lein rhagarweiniol ar gyfer hyfforddwyr Llwybr Perfformiad a Datblygwyr Hyfforddwyr Clwb. Byddwn nawr yn edrych ar feysydd penodol o ddatblygiad chwaraewyr a hyfforddwyr o fewn yr adnodd a all ddarparu cyfleoedd datblygu hyfforddwyr parhaus.
- Cefnogi'r Gweithlu – nawr yn edrych ar sut gellir darparu cefnogaeth i Ddatblygwyr Hyfforddwyr Clwb, gweithlu Addysgwyr Hoci Cymru ac o bosibl ar gyfer Llysgenhadon Hoci Ifanc.



# CYMDEITHAS DYFARNWYR HOCI CYMRU

**Fel llawer o sefydliadau mae dod allan o Covid-19 wedi achosi ychydig o broblemau a heriau i'w goresgyn; sef pobl wedi dod o hyd i flaenoriaethau eraill ac yn dewis naill ai torri'n ôl neu beidio â dychwelyd i ddyfarnu / gweinyddu unwaith y gwnaeth y gamp ddechrau'n ôl. Mae hyn wedi arwain at nifer dda yn dilyn y cyrsiau lefel 1 yr ydym wedi bod yn eu cynnal ar-lein unwaith eto ac rydym wedi gweld nifer o glybiau yn gofyn am asesiadau ar gyfer dyfarnwyr presennol sydd wedi cymhwyso'n rhannol.**

Mae ein cwrs datblygwyr clwb y buom yn siarad amdano ar ddiwedd y tymor diwethaf ar fin cael ei gyflwyno mewn pryd ar gyfer y tymor newydd ac wedi'i gwblhau tua 80%. Dylai hyn, gobeithio, alluogi clybiau i gefnogi eu dyfarnwyr newydd wrth ymgymryd â hyfforddiant a pharatoi ar gyfer eu hasesiadau.

Ar lefel ddomestig, mae ein dyfarnwyr yn parhau i wneud yn dda iawn ar y NPUA; cyrhaeddodd Luke Rees banel B, ac ailymunodd Jon McCall â'r NPUA ar Banel C. Dyrchafwyd Clare Barwood i Banel A* a Christian Phillips Adams i Banel A. Dathlodd Steve Cox ei 450fed gêm NPUA yn ystod y tymor hefyd – camp wirioneddol.

Yn rhyngwladol, braf iawn oedd gweld gwaith caled ac ymroddiad Clare Barwood yn cael ei wobrwyo gyda'i bathodyn Awyr Agored FIH a chael ei dyrchafu i'r Panel Rhyngwladol Awyr Agored. Ni allai rhai o'n Dyfarnwyr mwy newydd gadw at eu hapwyntiadau Ewropeaidd cyntaf y llynedd oherwydd covid ac mae'n braf adrodd eu bod i gyd wedi cael eu cyfle eto yr haf hwn.

Penodwyd Linda Treharne ac Abby MacArthur i Bencampwriaeth Dan Do Ewrop yn Hamburg, sef y gystadleuaeth dan do Ewropeaidd lefel uchaf, ond yn anffodus iddynt fe'i gohiriwyd oherwydd Covid. Gwnaeth Abby iawn am hyn drwy gael ei phenodi, ochr yn ochr â Cathy Wright, i Rowndiau Terfynol Dan Do Lloegr. Penodwyd Cathy hefyd i Gwpan y Byd dan do yng Ngwlad Belg a gafodd ei ganslo, yn anffodus, oherwydd covid. Roedd newyddion gwell i Chris Brewer a lwyddodd, ar y trydydd ymgais, i gyrraedd yr Iseldiroedd lle'r oedd yn Gynrychiolydd Technegol yn 12 Terfynol (Dynion) ac 8 Terfynol (Merched) y Gynghrair Hoci Ewropeaidd.

Gan edrych ymlaen at yr haf, mae gan lu o'n dyfarnwyr a'n swyddogion apwyntiadau Ewropeaidd ac mae gan Chris a Cathy apwyntiadau yng Ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham.

Hoffem ddiolch i'n holl ddyfarnwyr a'n swyddogion am eu hymdrechion yn ystod y tymor a dymunwn y gorau iddynt gyda'u hapwyntiadau yn y dyfodol.



# CYFLEUSTERAU

**Roedd y flwyddyn 21/22 yn un o flaengynllunio ar gyfer Cyfleusterau. Cyfarfu'r Grŵp Cydweithredu Cyfleusterau, sy'n cynnwys Chwaraeon Cymru, Ymddiriedolaeth CBDC, URC a Hoci Cymru, unwaith eto yn dilyn pandemig COVID-19 ac mae wedi bod yn gweithio ar ddyrannu cronfa newydd o gyllid i ddatblygiadau a fydd yn cael eu gwireddu yn y flwyddyn 22/23.**

Mae'r grŵp hwn yn gweithio'n hynod galed i ymgynghori ag Awdurdodau Lleol a Pherchnogion Cyfleusterau i ddeall yr angen lleol a chyfuno hyn ag amcanion strategol y Cyrff Rheoli a Chwaraeon Cymru. Y bwriad yw darparu ar gyfer cymunedau drwy ddarpariaeth briodol o gaeau artiffisial yn y lleoliadau cywir.

Roedd rhai datblygiadau o bwys yn ystod 21/22 y gall rhai o'n haelodau fod wedi cael budd o chwarae, hyfforddi, dyfarnu neu wylio arnynt eisoes.

Cyhoeddwyd mai Ysgol St John Lloyd yn Llanelli oedd un o'r caeau Gen2 Maint Llawn cyntaf yng Nghymru. Mae'r math hwn o arwyneb yn rhoi cyfleoedd i chwarae tennis, pêl rwyd a hoci ar lefel gymunedol ar y safle. Gwireddwyd hyn oherwydd cyllid y Grŵp Cydweithredu Cyfleusterau a gwaith gan Gyngor Sir Gaerfyrddin. Mae Hoci Cymru yn gweithio'n agos gyda'r cyngor i ddatblygu hoci yn yr ardal a ffrwyno'r cyfle ar gyfer cyfranogiad cymunedol yn Llanelli a'r cyffiniau.

Rydym yn gyffrous i weld newid un o'r caeau ym Mhrifysgol Abertawe yn ddiweddar i sicrhau ei fod yn cyrraedd safon y fanyleb gyda'r arwyneb arall a gafodd ei newid ychydig flynyddoedd yn ôl. Gosodwyd hwn gan ddefnyddio tyweirch o'r prosiect Big Stadium Hockey ac roedd yn enghraifft o gydweithio gwych rhwng Prifysgol Abertawe, Cyngor Abertawe a Hoci Cymru. Mae hyn wir wedi datblygu'r ddarpariaeth ar y safle yn Abertawe, safle a fydd yn parhau i groesawu Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol a gweithgarwch Llwybr yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae Canolfan Hamdden Sue Noake yn lleoliad arall sydd wedi agor ei drysau yn ddiweddar yn dilyn gwaith adnewyddu. Yn dilyn buddsoddiad gan y Grŵp Cydweithredu Cyfleusterau, mae Canolfan Hamdden Sue Noake wedi dod yn Hwb Hoci cydnabyddedig ym Mwrdeistref Sirol Caerffili gyda chae glas cwbl fodern yn darparu amgylchedd gwirioneddol ffyniannus. Mae Hoci Cymru a Chyngor Caerffili yn parhau i weithio'n agos iawn i sbarduno hoci ysgolion cynradd yn yr ardal ac mae cynlluniau cyffrous ar gyfer clwb iau newydd ar y gweill.

# CYSTADLAETHAU

## GEMAU CYMHWYSO CWPAN Y BYD Y DYNION
## HYDREF 2021

NIFER Y DYDDIAU
**4**

NIFER Y GWLEDYDD
**8**

NIFER YR ATHLETWYR
**160**

NIFER Y DYFARNWYR A'R SWYDDOGION
**16**

MUNUDAU O HOCI
**840**


NIFER Y TOCYNNAU A WERTHWYD
**766**

NIFER Y GWYLWYR
**1,517**

EuroHockey
European Qualifier -
FIH Hockey Men's World Cup 2023
Cardiff 2021

CYRHAEDDIAD Y GYSTADLEUAETH
**GWYBODAETH ANHYSBYS**

# CYFRANOGIAD



# MEISTRI CYMRU – DYNION: 1 EBRILL 2021 – 31 MAWRTH 2022

**Roedd tymor 2021/22 yn gwbl unigryw i'n sgwadiau Meistri Dynion. Aildrefnwyd ambell dwrnamaint ar gyfer yr haf yn y gobaith y byddent yn trechu covid, gan arwain at raglen gryno a thrwm ond cyffro mawr wrth ddychwelyd i chwarae mewn twrnameintiau. Aeth llawer o chwaraewyr i mewn i'r cystadlaethau hyn gan feddwl eu bod yn dal i fod o'r un oedran a ffitrwydd ag yr oeddent yn 2019(!) a heb y rhaglen hyfforddi arferol cyn y tymor, gan ddioddef problemau cyhyrau a llinyn y gar o ganlyniad. Fodd bynnag, chwaraeodd pob un o'n grwpiau oedran mewn twrnameintiau rhyngwladol a mynychodd y Dreigiau nifer o gystadlaethau hefyd.**

Mae balchder mawr yn y tîm Dros 75 sydd newydd gael ei lansio a chwaraeodd ei gêm ryngwladol gyntaf ym mis Tachwedd, ond nid fel y gobeithiwyd gyda chystadleuaeth y Pedair Gwlad yng Nghaerdydd (wedi'i difetha oherwydd cyfyngiadau teithio covid) ond gyda dwy gêm ryngwladol yn erbyn Lloegr – achlysur o arwyddocâd arbennig i ddyfodol hirdymor hoci Meistri Cymru. Cystadlodd sgwad ychydig yn wannach oherwydd anafiadau yn rhagorol mewn cystadleuaeth a gafodd sylw ar S4C, gan golli'r ddwy gêm 2-1 a bod yn anffodus i beidio â dod gartref gydag o leiaf un gêm gyfartal. Sgoriwyd goliau Cymru gan Martin Day (yn rhyfeddol fe sgoriodd y goliau cyntaf erioed i Gymru Dros 60 a Thros 70 hefyd) ac Ian Phillips. Amlygwyd cyfoeth hoci'r grŵp oedran hwn mewn penwythnos o gemau cyfeillgar yn erbyn Lloegr yn Dawlish, gemau pellach yn erbyn Lloegr a'r Gogledd, a buddugoliaeth yn 7 bob ochr Wellingborough.

Gyda Chwpanau'r Byd a Phedair Gwlad Prydain Fawr ac Iwerddon i gyd wedi'u canslo, defnyddiodd Lloegr eu lleoliad newydd gwych ar gyfer Cwpan y Byd yn Nottingham i gynnal gemau rhyngwladol 'cyfeillgar' ar gyfer pob grŵp oedran â diddordeb o wledydd Prydain Fawr ac Iwerddon. Gwelwyd y perfformiad mwyaf heriol o ddigon gan y sgwad Dros 60. Ar ôl colli 12-1 yn erbyn tîm rhagorol Lloegr, dysgwyd gwersi a threchu Iwerddon a'r Alban 2-1. Dilynwyd hwy yn agos gan y rhai Dros 40 a gollodd 3-4 i Iwerddon, 0-3 i Loegr ac wedyn ennill yn erbyn yr Alban 3-2. Collodd y rhai Dros 45, er gwaethaf ymdrech enbyd yn erbyn Lloegr yn y gêm gyntaf, 8-1. Arweiniodd perfformiad hynod siomedig yn erbyn Iwerddon at golli 6-0. Yn olaf, heb unrhyw seibiant, roedd rhaid chwarae yn erbyn yr Alban, y Pencampwyr Ewropeaidd presennol, ond arweiniodd perfformiad llawer gwell at golli o ddim ond 3-0 er gwaethaf mynd i mewn i'r chwarter olaf ddim ond 1-0 i lawr.

Canlyniadau eraill:

Dros 35: Cymru 0 Lloegr 7, Cymru 1 yr Alban 4

Dros 50: Cymru 1 Lloegr 3, Cymru 2 Iwerddon 2, Cymru 1 Yr Alban 6

Dros 55: Cymru 1 Lloegr 3, Cymru 1 yr Alban 3

Cynhaliwyd y Cwpan Celtaidd ar gyfer y rhai Dros 60, 65 a 70 yn Belfast er bod rheolau covid wedi atal Ffrainc rhag teithio. Parhaodd y tîm Dros 70 â'r rhediad buddugol anhygoel a ddechreuwyd gan y rhai Dros 65 yn 2016, ac wedyn buddugoliaethau yn 2017 a 2018 a pharhau â'u rhediad buddugol fel y tîm Dros 70 yn 2019 a 2021. Ond roedd llwyddo'n her, serch hynny, gyda buddugoliaeth o 1-0 yn erbyn yr Alban yn dilyn gêm gyfartal 0-0 yn erbyn Iwerddon.

Daeth y tîm Dros 60 yn 2il ar ôl gêm gyfartal 2-2 yn erbyn yr Alban ac wedyn gêm gyfartal 0-0 yn erbyn Iwerddon pan fyddai buddugoliaeth o 1-0 wedi rhoi'r teitl i Gymru, ond gwelwyd postyn Iwerddon yn ymyrryd ddwywaith pan oedd sgorio i weld yn haws.

Roedd gêm gyntaf y rhai Dros 65 yn erbyn yr Alban yn un dynn, ond enillodd yr Albanwyr o 2-0. Roedd yr ail gêm yn erbyn Iwerddon yn welliant mawr, ond roedd anafiadau i chwaraewyr allweddol yn golygu nad oedd Cymru'n gallu manteisio ar rywfaint o chwarae da a daeth y gêm i ben gyda gêm gyfartal ddi-sgôr.

Bu tîm Dros 70 y Dreigiau Cymreig yn cystadlu yn nhwrnamaint 4 Gwlad cyntaf Thistles Prydain Fawr ac Iwerddon yn Dundee a chwaraeodd y tîm 60+ yn nhwrnamaint LX Lloegr yn Durham. Ar ôl ennill Twrnamaint Jacques Levy yn Lille yn 2018 a 2019, roedd gan sgwad 60+ y Dreigiau a oedd yn cynnwys chwaraewyr Dros 60, 65, 70 a 75 (gan gynnwys y gôl-geidwad Glyn Thomas, 82 oed) obeithion mawr o hatrig tan 30 eiliad cyn diwedd y gêm derfynol pan ddaeth y Shamrocks yn gyfartal ac ennill yr ornest saethu wedyn.

Beth bynnag oedd y canlyniadau, neges gyson tymor 2021 oedd y llawenydd o fod yn ôl ar y cae, yn chwarae mewn twrnameintiau boed yn rhyngwladol neu'n gyfeillgar, ac yn mwynhau'r cyfeillgarwch gyda ffrindiau a gelynion fel ei gilydd. Rydym yn gobeithio, ond nid ydym yn gwbl hyderus yng nghanol yr holl ansicrwydd presennol, y bydd ein Cwpanau Byd yn 2022 yn Nottingham (Dros 35 / 40), Cape Town (Dros 45 / 50 / 55) a Tokyo (Dros 60 / 65 / 70) yn mynd yn eu blaen.



# MEISTRI CYMRU – MERCHED: 1 EBRILL 2021 – 31 MAWRTH 2022

**Dechreuodd tymor Meistri Merched 2021 ar ddiwedd 2020 gyda'r rheolwyr a'r hyfforddwyr yn parhau â threialon a dethol gan weithio o fewn rheolau COVID. Mewn cytundeb â'r gwledydd eraill, cadwyd oedran y chwaraewyr yn ôl i dymor 2020, a chynhaliwyd treialon ar gyfer y chwaraewyr Dros 35, 40, 45, 50, 55 a 60. Roedd hon yn dasg anodd gan fod gennym ni hyfforddwyr a chwaraewyr yn dilyn rheolau COVID gwahanol yn dibynnu ar ble roeddent yn byw yn y DU. Er gwaethaf hyn, ni welwyd y dyhead i gynnal y Meistri Hoci yn pylu o gwbl.**

Gyda sgwadiau wedi'u dewis ym mhob grŵp oedran, dechreuodd y gemau hyfforddi a chynhesu wrth i'r sgwadiau baratoi ar gyfer y gemau cyfeillgar rhyngwladol yn Nottingham a gynhaliwyd rhwng y 14eg a'r 16eg o Awst 2021. Oherwydd y cyfyngiadau parhaus ni allai Iwerddon fynychu'r twrnamaint a dyma'r rheswm pam na ellid chwarae hwn fel twrnamaint Pedair Gwlad Rhyngwladol llawn ac fe'i chwaraewyd fel gemau rhyngwladol cyfeillgar. Er gwaethaf hyn, parhaodd lefel y gystadleuaeth yn uchel ac aeth ein chwaraewyr ar y cae gyda balchder ac angerdd arferol Cymru. Daethom gartref gyda rhai buddugoliaethau a cholledion ar draws yr holl sgwadiau a theimlo ein bod wedi cael twrnamaint llwyddiannus iawn.

Oherwydd cyfyngiadau parhaus COVID, yn enwedig o ran teithio'r Byd, ni chynhaliwyd twrnameintiau Cwpan y Byd y Meistri yn 2021 gyda Nottingham ar gyfer y rhai Dros 35 – Dros 40 a De Affrica ar gyfer y rhai Dros 45 – Dros 60 yn cael eu symud i 2022.

Ar ddiwedd 2021 cynhaliwyd treialon ar gyfer tymor 2022. Roedd y presenoldeb yn y treialon yn aruthrol gyda'r hyfforddwyr a'r rheolwyr yn wynebu tasg anodd iawn wrth ddewis sgwad o 18 yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran. Er bod treialon wedi'u cynnal ar gyfer sgwad y rhai Dros 65, nid oedd digon o chwaraewyr i greu sgwad hyfyw ar gyfer 2022. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y merched Dros 65 yn dechrau yn 2023.

Mae dau dwrnamaint yn 2022, sef twrnamaint y Pedair Gwlad ar gyfer pob grŵp oedran a fydd yn cael ei gynnal yn Nottingham rhwng 17eg a 19eg Mehefin, a Chwpan y Byd ar gyfer y rhai Dros 35 a Thros 40 hefyd yn Nottingham rhwng 12fed a 21ain Awst. Bydd y Cwpan y Byd i'r rhai Dros 45 i Dros 60 yn Cape Town rhwng 1af a 10fed Hydref.

Bydd pob grŵp oedran yn cael ei gynrychioli yn nhwrnamaint y pedair gwlad a Chwpan y Byd ar gyfer y rhai Dros 35 a'r rhai Dros 40. Yn anffodus, oherwydd pwysau COVID-19, nid ydym wedi gallu rhoi ein henw ar gyfer Cwpan y Byd yn Cape Town ar gyfer y sgwadiau Dros 45 a Thros 50, ond bydd Cymru yn parhau â chynrychiolaeth Dros 55 a Thros 60.

Rydym yn parhau i fod â chydlynydd Meistri a phrif hyfforddwr, yn ogystal â rheolwyr a hyfforddwyr ar gyfer pob sgwad. Mae'r Meistri hefyd yn cael eu cefnogi gan TO's, ystadegwyr a grŵp o staff meddygol sy'n teithio i dwrnameintiau gyda'r sgwadiau ac rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir gan Hoci Cymru.













# CYSTADLAETHAU 2021/2022

## CYSTADLAETHAU CLWB

Merched Dan Do
Wedi'i gohirio tan fis Mehefin 2022

Dynion Dan Do
Wedi'i gohirio tan fis Mehefin 2022

Pencampwriaeth y Merched
Penarth

Pencampwriaeth y Dynion
Caerdydd a Met

Tlws y Merched
Penarth

Tlws y Dynion
Gwent

Her y Merche
Athletig Caerfyrddin

Her y Dynion
Abertawe

Meistri Merched
Penarth

Meistri Dynion
Caerdydd a Met

## YOUTH COMPETITIONS

Merched D18 – Abertawe

Bechgyn D18 – Yr Eglwys Newydd

Merched D16 – Abertawe

Bechgyn D16 – Yr Eglwys Newydd

Merched D14 – Penarth

Bechgyn D14 – Yr Eglwys Newydd

Merched D12 – yr Eglwys Newydd

Bechgyn D12 – Yr Eglwys Newydd

## CYSTADLAETHAU EUROHOCKEY

2021 Her III Clwb EuroHockey Merched Awyr Agored 2021, Croatia, HC Gwent

Ni chynhaliwyd unrhyw gystadlaethau eraill oherwydd COVID-19

## CYSTADLAETHAU YSGOLION

Merched Ysgol Dan 18
Ysgol i Ferched Trefynwy

Bechgyn Ysgol Dan 18
Ysgol Glantaf

Merched Ysgol Dan 16
Coleg Crist Aberhonddu

Bechgyn Ysgol Dan 16
Coleg Crist Aberhonddu

Merched Ysgol Dan 14
Ysgol Glantaf

Bechgyn Ysgol Dan 14
Ysgol Uwchradd Caereinion

Cwpan Merched Ysgol Dan 12
Ysgol Howell's

Plât Merched Ysgol Dan 12
Ysgol Godre'r Berwyn

Bechgyn Ysgol Dan 12
Ysgol Godre'r Berwyn

Merched Ysgol Dan 14 'Hoci 7' y Gogledd
Ysgol Brynhyfryd

Merched Ysgol Dan 14 'Hoci 7' y De
Coleg Crist Aberhonddu

## PRIF YSTADEGAU CYSTADLAETHAU 2021/2022

| CYFANSWM NIFER Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU A YMGEISIODD | NIFER Y CHWARAEWYR A GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 25 | 299 | 3,804 | 609 | 18,245 |

## PRIF YSTADEGAU CLYBIAU 2021/2022

| CYFANSWM Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU A YMGEISIODD | NIFER Y CHWARAEWYR A GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 14 | 161 | 2,322 | 183 | 9,695 |

## PRIF YSTADEGAU YSGOLION 2021/2022

| CYFANSWM Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU A YMGEISIODD | NIFER Y CHWARAEWYR A GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 11 | 138 | 1,482 | 342 | 8,550 |

# PARTNERIAETHAU



# PARTNERIAETHAU

**Hoffem ddiolch i Bartneriaid, Cyflenwyr a Noddwyr am eu cefnogaeth**

## PARTNERIAID SWYDDOGOL

## CYFLENWYR SWYDDOGOL

## NODDWYR CHWARAEWYR

*Ewch i'n gwefan ni - www.hockeywales.org.uk/performance*

## RHANDDEILIAID

**Diolch yn fawr iawn i Irfon Bennett sy'n cofnodi'r eiliadau arbennig hynny yn gyson gyda'i sgiliau ffotograffiaeth.**

**CEFNOGAETH**

Rydym wedi cefnogi **CRAIG JONES, CLWB HOCI CAERFYRDDIN,** gyda **CHIT GÔL-GEIDWAD**

**255**

**O AELODAU**

**RAFFLAU MISOL**

| **48** | **37** | **11** |
|---|---|---|
| RAFFLAU GWOBRAU MISOL | ENILLWYR UNIGOL | ENILLWYR CLWB |

Elusen yw Ffrindiau Hoci Cymru a sefydlwyd i gefnogi gweithgareddau hoci cae ledled Cymru. Mae cyllid o gyfrif y raffl fisol yn cefnogi prosiectau sy'n cael eu cynnal gan ysgolion, clybiau a / neu unigolion i ddatblygu hoci. Mae Ffrindiau Hoci Cymru hefyd yn darparu cymorth ariannol i bobl ifanc i wella eu profiadau hoci.

Mae gan ein tudalen ni ar Facebook **290** wedi ei **HOFFI** a **304** o **DDILYNWYR**
**Friends of Welsh Hockey**

Mae gan ein cyfrif Twitter **325** o **DDILYNWYR**
**@Friends of WH**

Mae gan ein cyfrif Instagram **296** o **DDILYNWYR** a **155** o **NEGESEUON**
**friends_of_wh**

**www.friendsofwelshhockey.org.uk**

Rhif Elusen: 1140894

# MANYLION ARIANNOL

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# MANYLION ARIANNOL 2021 –2022

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

**ADRODDIAD LLAWN I DDILYN**

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

## DIOLCH YN FAWR

**Adroddiad Blynyddol Hoci Cymru 2021/22.**

**Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad ac i'r teulu hoci am eich cefnogaeth gyson.**

Am fwy o wybodaeth neu i gymryd rhan ewch i:

**www.hockeywales.org.uk**

**@HockeyWales**

**@hockey_wales**

**@HockeyWales**

Neu anfonwch e-bost atom ni ar: **info@hockeywales.org.uk**

**Hoci Cymru**
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru,
Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.